

Y Rhai sy'n Gofalu

Darlleniad: Salm 23

Dad pob gofal a thawel ostegwr pob storm, atat ti y trown gyda diolch am y rhai sy'n gofalu. Pobl ydynt sydd yn ymateb i gyflwr ac i sefyllfa eraill mewn cariad a thosturi.

Cofiw'n am ofal Mair, mam Iesu. Gofal greddfól a naturiol mam dros ei phlentyn; gofal a barhaodd dros Iesu ar hyd ei fywyd; gofal a rannodd ym mhwysau'r groes, ac yn nioddefaint y croeshoeliad.

Diolchwn i ti am ofal mamau'r byd heddiw.

Y fam sydd, mewn cariad, yn dymuno y bydd i'r baban yn ei breichiau brofi o'th wenau di ar hyd ei oes.

Y fam sy'n rhannu yng ngofid ei phlentyn sy'n wynebu amgylchiadau anodd neu annheg.

Y fam sy'n dal i garu a phoeni pan fo'i ei phlentyn wedi ei arwain i drafferthion.

Y fam sy'n cyd-ddioddef â phlentyn ar gyffuriau, neu sydd yng ngharchar.

Y fam na wŷr beth yw hanes ei phlentyn.

Diolch am ofal mam.

Cofiw'n am ofal y tad hwnnw y dioddefai ei fab o epilepsi, ac a aeth ag ef at Iesu i'w iacháu, gan gyfaddef, "Y mae gennyf fi ffydd; helpa di fy niffyg ffydd".

Diolchwn iti am ofal rhieni dros blant sy'n dioddef salwch ac afiechyd nad oes moddion i'w gael ar hyn o bryd i'w gwella.

Cynnal eu breichiau wrth iddynt ofalu am holl anghenion eu plant, a phan fo'u ffydd yn diffygio, pan welant oriau'r dydd yn hir, ac oriau'r nos yn hwy, rho di dy nerth iddynt.

Cofiw'n am ofal cyfeillion rhyw wŷr a oedd wedi ei barlysu, ac a'i cariodd ar ei wely at Iesu, a'i ollwng i lawr drwy do'r tŷ lle roedd Iesu, a thyrfa fawr wedi ymgynnull.

Diolch i ti am y bobl hynny sy'n barod i 'gerdded yr ail filltir' yn eu gofal dros eraill. Rhai sy'n barod i rannu'r beichiau a rhannu'r gofidiau dros gâr neu gydnabod neu gyfaill. Diolch am 'ofalwyr'

felly yn ein cymdeithas, ac agor ein llygaid i weld sut y gallwn ninnau fod yn gyfryngau gofal fel hyn dros eraill.

Cofiw'n am ofal y fam weddw a gollodd ei mab, a'r ddwy chwaer, Mair a Martha a gollodd eu brawd.

Cysura'r gofalwyr hynny, O! Dad, sy'n gweini dros y rhai sy'n marw. Pan ei bod hi'n anodd derbyn y drefn, pan fo'r gobeithion i gyd yn pylu, helpa hwy i wynebu'r anorfod mewn ffydd, ac i bwyso ar dy addewidion di yn Iesu Grist. Caniatâ i'r boen o golli rhywun annwyl mewn profedigaeth fod yn gyfrwng i ddod â'r rhai sydd yn eu galar a'u hiraeth i adnabyddiaeth newydd ohonot ti, ac i ymdeimlo â'th agosrwydd.

Mae'r Salmydd yn ein hatgoffa i Dduw roi i deulu dyn awdurdod ar waith ei ddwylo, a gosod popeth dan ei draed ef, ..

Erfyniwn am dy faddeuant am bob drwg a wnaed gennym i'th greadigaeth. Yn ein trychwant a'n hunanoldeb rydyn ni wedi treisio'r ddaear a rhannu ei hadnoddau yn afradlon. Cymorth ni i sylweddoli yr ymddiriedaeth fawr a roddaist ti ynom ni; a gwna ni'n ofalwyr mwy cydwybodol o'r ddaear, ac o bob peth byw arall sy'n rhannu'r ddaear yma gyda ni fel cartref.

Wrth gofio am y wraig a roes y ddwy hatling yng nghist y drysorfa,

Diolchwn am rai sydd, yn eu gofal dros dy bethau di, yn cyfrannu tuag at eu cynnal. Diolchwn am dy eglwys yn dy wlad a'n byd, ac am bob rhodd a chefnogaeth sy'n ei galluogi i weithredu yn fwy effeithiol yn dy enw di. Diolchwn am bob cymorth a chynhaliadaeth a gaiff pobl ganddi a thrwyddi.

Ac wrth gofio mai 'yr Arglwydd yw fy mugail ... '

Fe'th gydnabyddwn di, Arglwydd, nid yn unig yn greawdwr a chynhaliwr, ond ti hefyd wyt ofalwr ein heneidiau. Dyro i'n heneidiau ni nawr brofi'r tangnefedd hwnnw nad yw i'w gael ond ynot ti. Maddau inni yn haeddiannau Iesu Grist bob diffyg a diofalwch, wrth i ni gyflwyno ein hunain a'n gilydd i'th ofal tragwyddol di. Amen.

Tecwyn Ifan